# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 2 Tachwedd 2020

Amser: 13.15 - 17.05

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6501

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Huw Irranca-Davies AS<br>Mark Isherwood AS<br>Delyth Jewell AS |
| Tystion: | Ruth Marks, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru<br>Fiona Liddell, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)<br>Noreen Blanluet, Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru<br>Jas Bains, Hafod<br>Kate Griffiths, Y Groes Goch Brydeinig<br>Carol Mack, Fforwm Cyllidwyr Cymru<br>John Rose, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol<br>Rebecca Watkins, Moondance Foundation<br>Richard Williams, Fforwm Cyllidwyr Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Jonathan Baxter (Ymchwilydd)<br><br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

1.2. Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, nododd y Cadeirydd ei fod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

1.3. Cafwyd ymddiheuriad gan Dawn Bowden AS.

1.4. Nododd y Cadeirydd, os bydd yn gadael y cyfarfod heb rybudd am unrhyw reswm, fod y Pwyllgor wedi cytuno y bydd Huw Irranca-Davies AS yn dod yn Gadeirydd dros dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

## 2 Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar y sector gwirfoddol - sesiwn dystiolaeth 1

2.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Ruth Marks, Prif Weithredwr, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Fiona Liddell, Rheolwr, Helpforce Cymru
- Noreen Blanluet, Prif ymgynghorydd, Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru

2.2. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cytunodd y tystion i rannu enghreifftiau o arfer da a modelau ymgysylltu a chyd-gynhyrchu a ddatblygwyd ac a ddefnyddiwyd yn ystod y pandemig.

2.3. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cytunodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i ddarparu rhagor o wybodaeth am y gwersi a ddysgwyd ynghylch rheolaeth ariannol yn ystod y pandemig.

## 3 Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar y sector gwirfoddol - sesiwn dystiolaeth 2

3.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Kate Griffiths, Cyfarwyddwr Cymru, y Groes Goch Brydeinig
- Jas Bains, Prif Weithredwr, Hafod

## 4 Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar y sector gwirfoddol - sesiwn dystiolaeth 3

4.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Carol Mack, Cadeirydd, Fforwm Cyllidwyr Cymru
- Rebecca Watkins, Cyfarwyddwr y Sefydliad, Moondance Foundation
- Richard Williams, Prif Weithredwr, y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru
- John Rose, Cyfarwyddwr Cymru, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

## 5 Papur(au) i'w nodi

### 5.1 Tystiolaeth ychwanegol gan Gymorth i Fenywod Cymru mewn cysylltiad â'r ymchwiliad i COVID-19

5.1.a. Nododd y Pwyllgor y dystiolaeth ychwanegol gan Gymorth i Fenywod Cymru mewn cysylltiad â'r ymchwiliad i COVID-19.

### 5.2 Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau at Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru mewn perthynas ag effaith COVID-19

5.2.a. Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau at Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru mewn perthynas ag effaith COVID-19.

**5.3 Gohebiaeth gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru mewn perthynas ag effaith COVID-19**

5.3.a. Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru mewn perthynas ag effaith COVID-19.

**5.4 Papur briffio gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar ofal preswyl yng Nghymru a'r pandemig COVID-19**

5.4.a. Nododd y Pwyllgor y papur briffio gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar ofal preswyl yng Nghymru a'r pandemig COVID-19.

**5.5 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Llywydd mewn perthynas â rheoliadau Covid-19**

5.5.a. Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Llywydd mewn perthynas â rheoliadau COVID-19.

**5.6 Gohebiaeth gan Gymorth i Fenywod Cymru ynghylch y Bil Cam-drin Domestig**

5.6.a. Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Gymorth i Fenywod Cymru ynghylch y Bil Cam-drin Domestig.

**5.7 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip at y Cadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y Bil Cam-drin Domestig.**

5.7.a. Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip at y Cadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y Bil Cam-drin Domestig.

**5.8 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch cysgu ar y stryd.**

5.8.a. Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch cysgu ar y stryd.

### 5.9 Llythyr gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru mewn perthynas ag anghydraddoldeb yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru

5.9.a. Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru mewn perthynas ag anghydraddoldeb yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am y materion a godwyd.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1. Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 7 Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar y sector gwirfoddol - trafod y dystiolaeth a gafwyd.

7.1. Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.